**Cyngor Sir Caerfyrddin**

**Disgrifiad Swydd Clerc Sganio/Clerc Agor Pleidleisiau drwy'r Post (PVO/PVOA)**

**Y Tîm Agor Pleidleisiau drwy'r Post**

Ar ôl i'r pleidleisiau post ddechrau cael eu dychwelyd atom, mae angen eu hagor, eu gwirio a'u cadarnhau cyn iddynt gael eu hanfon i gael eu cyfrif gyda gweddill y papurau pleidleisio. Fel arfer rydym yn cynnal sawl sesiwn agor pleidleisiau drwy'r post ar y diwrnodau cyn diwrnod yr etholiad gan ein bod yn derbyn pecynnau pleidleisio drwy'r post wedi'u cwblhau bob dydd ar ôl eu hanfon.

Mae'r dyletswyddau'n cynnwys:

- ➢ Agor pecynnau pleidleisio drwy'r post a gwirio eu cynnwys
- ➢ Gwirio manylion papurau pleidleisio a datganiadau pleidleisio drwy'r post
- ➢ Dilyn cyfarwyddiadau manwl gywir fel y nodir gan yr uwch-dîm
- ➢ Nodi unrhyw gamgymariadau neu anghysondebau a allai ymddangos

Mae sesiynau agor pleidleisiau drwy'r post fel arfer yn dechrau yn y bore (tua 9:30-10am) a bydd hyd y sesiynau yn dibynnu ar nifer y pleidleisiau drwy'r post sydd wedi dod i law erbyn hynny. Y sesiynau hiraf fel arfer yw'r rhai ar y diwrnodau cyntaf gan y bydd yn rhaid i staff agor yr holl bleidleisiau drwy'r post sydd wedi dod i law ers iddynt gael eu hanfon (gwerth dros wythnos). Bydd seibiannau rheolaidd drwy gydol pob sesiwn, gan gynnwys cinio, ond rydym yn cynghori staff i ddod â'u lluniaeth eu hunain.

Y sgiliau angenrheidiol ar gyfer y rôl hon yw:

- ✓ Cydweithio ag eraill
- ✓ Cynnal lefel uchel o gywirdeb wrth weithio
- ✓ Sgiliau cyfathrebu da
- ✓ Dilyn cyfarwyddiadau yn fanwl

Ni chaniateir i'r (Dirprwy) Swyddog Canlyniadau/Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)/Swyddog Canlyniadau Lleol/Swyddog Cyfrif gyflogi unrhyw un sy'n cyflawni neu sydd wedi cyflawni dyletswyddau ar ran unrhyw blaid wleidyddol neu ymgeisydd yn yr etholiad.

**Taliad**

Bydd y taliad yn cael ei gyfrifo fesul awr a bydd yn cael ei wneud i gyfrif banc dynodedig ar ôl y diwrnod pleidleisio.